



ar gyfer plant anabl
a phobl ifanc Cymru

Ar gyfer plant anabl a phobl ifanc Cymru

Bu tair elusen ar ddeg sy'n delio â phlant a phobl ifanc ac anabledd yn cydweithio gyda Sefydliad Bevan i ddarganfod mwy am chwarae a gweithgareddau hamdden plant a phobl ifanc. Disgrifiodd dros 80 o blant a phobl ifanc wrthon ni yr hyn y maen nhw'n ei wneud a dwedodd dros 25 o sefydliadau wrthon ni am y gweithgareddau chwarae a hamdden y maen nhw'n eu darparu. Dyma grynodedb o'r prif gasgliadau..

Crynodeb

Wrth ddarparu gweithgareddau chwarae a hamdden ar gyfer plant a phobl ifanc anabl, rhaid ystyried ystod eang o ddeddfwriaethau a pholisïau yn amrywio o ddeddf gwahaniaethau ar sail anabledd i bolisïau ar hawliau plant i oblygiadau gofal cymdeithasol i bolisïau tloedi plant.

Er gwaethaf hyn, cyfyngedig yw nifer ac ystod y gweithgareddau y mae mwyafrif o blant anabl yn cymryd rhan ynddyn nhw ac mae rhai plant a phobl ifanc anabl yn teimlo nad oes 'dim ar eu cyfer'.

Mae plant a phobl ifanc anabl yn wynebu rhwystrau oherwydd diffyg darpariaeth, diffyg cymorth, mynediad gwael i adeiladau ac agweddau negyddol sydd, er gwaethaf deddfwriaeth a pholisïau, yn eu hatal rhag cymryd rhan fel plant a phobl ifanc heb anabledd.

Does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Mae lleiafrif sylweddol o blant anabl yn cymryd rhan mewn nifer fawr o weithgareddau amrywiol iawn, rhai wedi'u hintegreiddio a rhai'n arbenigol, a cheir nifer o grwpiau yn cynnig gweithgareddau llwyddiannus iawn i blant a phobl ifanc anabl. Yr allwedd i'r llwyddiant hwn yw cael staff a gwirfoddolwyr egnïol, cynnwys plant a phobl ifanc a chyllid, waeth pa mor fach.

Rhaid gweithredu i sicrhau bod y cyfleoedd hyn ar gael i bob plentyn a pherson ifanc anabl. Mae'r adroddiad yn argymhell y canlynol:

- **Cymorth ar gyfer datblygiad lleol o weithgareddau chwarae a hamdden.**
- **Cynhwysiad effeithiol mewn gweithgareddau prif ffrwd.**
- **Cyllid digonol ar gyfer chwarae a hamdden.**
- **Monitro mwy caeth o'r ddarpariaeth a gorfodi mwy ar yr ymrwymadau**
- **Dathlu arferion da.**

Cefnogwyd yr ymchwil gan: Gweithredu dros Blant, Asbah, Barnardos Cymru, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi Cymru, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol, Cyswllt Teulu Cymru, Croesffyrdd Cymru, Cronfa'r Teulu, Anabledd Dysgu Cymru, RNID Cymru, RNIB Cymru, SNAP Cymru, Tros Gyngal

Mae copi o'r adroddiad llawn ar gael ar www.bevanfoundation.org

Cyhoeddwyd gan:

Sefydliad Bevan, Innovation Centre, Festival Drive, Glyn Ebwy, Blaenau Gwent NP23 8XA
Ffôn 01495 356702 E-bost info@bevanfoundation.org Elusen Gofrestredig 1104191